MHA
Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy



Tai Sir Fynwy

# Ein Cynllun Corfforaethol 2023/24




# Cyflwyniad

## Mae Grŵp CTSF yn credu y dylai cartrefi fod yn ddiogel, yn glyd ac yn sych a bod pob dim ynddynt yn gweithio'n iawn...

...Hafan sy'n fforddiadwy mewn man gall tenantiaid fod yn falch o fedru byw ynddo. Nid mater o gynnig llety fforddiadwy o ansawdd ac wedi ei ddylunio'n dda yn unig yw hyn, ond creu cymunedau integredig ac ymdrechu i fodloni'r galw parhaus am gartrefi. Mae ein gwasanaethau wedi eu hunioni ag uchelgeisiau a phwrpas craidd CTSF, ble mae staff yn frwdfrydig ac yn angerddol ynglŷn â chyflenwi a sicrhau'r gwerth a'r bodlonrwydd mwyaf i gwsmeriaid.

Wrth ddod allan o'r pandemig, rydym yn gryfach nag erioed ac wedi'n cyffroi gyda'r cyfleoedd i gyfathrebu a gweithio mewn ffordd wahanol. Mae technolegau newydd yn dod â gwasanaeth cwsmer mwy ymatebol, effeithlon a phersonol a chydbwysedd gwell i staff rhwng bywyd a gwaith. Rydym yn parhau i ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd ac yn datblygu cyfleoedd pellach fel: mynediad, hyfforddiant, llwyfannau hunanwasanaeth a chyfathrebu gwell dwy ffordd i fodloni disgwyliadau cwsmeriaid, tra'n targedu cefnogaeth at y mwyaf bregus.

Yn y cyd-destun ehangach mae yna amserau heriol o'n blaen wrth i ni gefnogi targedau carbon sero Llywodraeth Cymru ac edrych ar gynlluniau cynaliadwyedd amgylcheddol eraill, Serch hynny mae ein bryd o hyd ar y busnes craidd, cadw statws ariannol cryf a bodloni rhwymedigaethau statudol.

Rydym yn falch o gyflwyno'r cynllun yma i'n rhanddeiliaid gan ei fod yn cynrychioli ein penderfyniad a'n ymdrech tuag at ragoriaeth. Ni allwn lwyddo yn ein huchelgeisiau heb bartneriaethau cryf a bydd ein Strategaeth Ymgysylltiad yn llywio'r daith yma i ni.

Mae'r uchelgeisiau corfforaethol uchod ar gyfer 2023 a thu hwnt wedi eu cynllunio o gwmpas pedwar prif bennawd: Landlord, Amgylchedd, Economi a Phobl. Mae gan bob un amcanion uchelgeisiol ond mae pob un ag anghenion ac uchelgeisiau ein tenantiaid, ein staff a'r cymunedau yn ganolog.



# Pwy’r Ydym Ni

## Grŵp tai nid-er-elw, elusennol yw Tai Sir Fynwy a sefydlwyd yn 2008 ar ôl trosglwyddiad gwirfoddol graddfa fawr o’r awdurdod lleol.

Rydym yn creu cartrefi fforddiadwy o ansawdd ar draws Sir Fynwy. Rydym yn berchen ar, yn rheoli ac yn cynnal a chadw dros **3,800** o dai ar osod a **231** o gartrefi dan brydles, gan gynnwys cartrefi arbenigol i bobl hŷn.

Mae ein cartrefi ar gael ar nifer o ffurfiau deiliadaeth, gan gynnwys rhent a gwerthiant trwy ein cynllun ecwiti rhanedig.

Rydym yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau i helpu i wella bywydau ein cwsmeriaid ac yn cyrraedd lefelau uchel o fodlonrwydd ymhlith cwsmeriaid yn gyson, ymhlith yr uchaf yng Nghymru.

Rydym yn cyflogi **dros 240 o bobl** ac mae pob dim yr ydym yn gwneud yn cael ei lywio gan ein Gweledigaeth, Pwrpas ac Uchelgeisiau Strategol.

Rydym yn ymfalchïo ein bod yn gweithio gyda’n cymunedau lleol, yn adnabod ac yn deall ein cwsmeriaid ac yn gweithio gyda phobl leol i gyflenwi’r gwasanaethau gorau posibl.

Gan ein bod yn fusnes ag amcanion cymdeithasol, rydym yn buddsoddi bod ceiniog yr ydym yn ei ennill a mwy mewn tai o ansawdd a gwasanaethau i bobl sydd ag angen am dai. Yn 20/21 fe wnaethom ni arian dros ben o **£785,000** a buddsoddon ni **£20miliwn** wrth ddatblygu, cynnal a gwella cartrefi hen a newydd a chymunedau hefyd.

Mae ein his-gwmni, Capsel Ltd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau eiddo ac adeiladwaith. Mae ganddyn nhw asiantaeth gwerthu a gosod hefyd, ac maen nhw’n datblygu cartrefi i’w gwerthu, sy’n cael ei farchnata trwy’r brand Capsel Homes sy’n tyfu o hyd.

Mae Capsel hefyd yn ein helpu i edrych ar a datblygu cyfleoedd arloesol a chynaliadwy .

# Ein Gwerthoedd



## Agored

Byddwn yn onest ac yn ddidwyll wrth ein gwaith a bydd ein penderfyniadau'n gynhwysol ac yn dryloyw.



## Teg

Rydym wedi ymrwymo i gyflenwi gwasanaethau mewn ffordd gyfartal gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb.



## Hyblyg

Byddwn yn arloesol ac yn rhagweithiol ac yn edrych ar newid fel cyfle.



## Cyflawni

Byddwn yn gosod ac yn cyrraedd nodau a thargedau uchelgeisiol.

# Datganiad Cenhadaeth

Darparu **cartrefi a gwasanaethau o ansawdd uchel** sy'n rhoi **pobl yn gyntaf**

# Ein Gweledigaeth

Darparu cartrefi o ansawdd uchel ar gyfer cwsmeriaid presennol a newydd. Rydym yn ceisio trawsnewid bywydau a helpu pobl i wireddu eu huchelgeisiau o fewn cymunedau bywiog ac ardaloedd lle maent yn dyheu am fyw a gweithio.

# Llwyddo gydag Uchelgeisiau fel...

# Llwyddo gydag Uchelgeisiau fel...

## Landlord...

Ein gweledigaeth yw cynnig gwasanaethau a chartrefi diogel, o ansawdd sy'n bodloni disgwyliadau rhanddeiliaid. Pob dydd rydym yn ceisio trawsnewid bywydau trwy alluogi cymunedau i wireddu eu huchelgeisiau. Rydym wedi creu amgylchedd ble gall pobl gael ansawdd bywyd gwych, mewn mannau ble maen nhw'n dymuno byw a gweithio.

**Adeiladu cartrefi ble mae pobl am fyw a gweithio...**

### Ein targedau ar gyfer y flwyddyn hon yw:

- 100 o dai ychwanegol i gynyddu'r cyflenwad o gartrefi sydd ar gael, drwy ddatblygiadau newydd, adfywio a chaffael
- Sicrhau cyflenwad o dir i alluogi'r rhaglen ddatblygu i fynd yn ei blaen – o fewn a thu allan i Sir Fynwy.
- Gweithio gyda'r awdurdodau lleol i ganfod a sicrhau cyfleoedd adfywio a datblygu canol trefi hynny yr ydym am eu hehangu a gweithio gyda CSF i ddatblygu eu rhai nhw.
- Cefnogi gofynion canllawiau cynllunio atodol yr ALI ar gyfer seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth mewn datblygiadau newydd ac ehangu ar hyn lle mae'r asesiadau hyfywedd yn ei gefnogi.

**Mewn partneriaeth â'n tenantiaid, cyflenwi gwasanaethau sy'n cynyddu'n cynnig presennol ac yn sicrhau gwerth am arian...**

### Ein targedau ar gyfer y flwyddyn hon yw:

- Ymwreiddio'r Pwyllgor Llais Cymunedol ym mhenderfyniadau a phrosesu ymgynghori CTSF, a monitro'u rhaglen waith o ran cynnydd a nodi sgiliau newydd sydd eu hangen a gofynion hyfforddi/briffio.
- Sicrhau bod 90% o denantiaid ar y cyfan yn parhau i fod yn fodlon
- Cyflwyno brand newydd a chwilio am gyfleoedd newydd yn sgil y strategaeth rhanddeiliaid.
- Datblygu cynnig digidol i denantiaid, gan roi mynediad 24 awr i wasanaethau trwy gyflwyno Ap newydd ar gyfer Tenantiaid
- Gweithio gyda CHC a LCC eraill i ddatblygu Methodoleg Gosod Rhent.
- Archwilio cyfleoedd i liniaru tlodi tanwydd ar ran y tenantiaid, yn cynnwys NDC yn y CHC, hefyd, mynd ati i werthuso effeithiolrwydd y prosiect Tlodi Tanwydd gyda Cymru Gynnes i geisio sicrhau arian yn y dyfodol os oes ffrydiau ar gael.

**Trawsnewid bywydau a galluogi cymunedau...**

### Ein targedau ar gyfer y flwyddyn hon yw:

- Cyflawni amcanion Blwyddyn 2 i-Gyswllt a lleihau nifer y tenantiaid sydd wedi eu heithrio'n ddigidol.
- Gweithredu deddfwriaeth Deddf Rhentu Cartrefi (a Ffit i Fod yn Gartref (FFHH)

# Amgylchedd...

Bydd CTSF yn darparu gwasanaethau a chartrefi amgylcheddol-gyfeillgar, cynaliadwy, gan leihau ein hallyriadau $CO_2$ a chwarae'n rhan wrth helpu Cymru i fodloni uchelgeisiau Llywodraeth Cymru o fewn y rhaglen Carbon Sero.

**Gwella effeithlonrwydd ynni cartrefi hen a newydd a gosod llwybr at garbon sero net...**

**Ein targedau ar gyfer eleni yw:**

- Datblygu strategaeth ariannu targedau Llywodraeth Cymru ar ddatgarboneiddio, unwaith y pennir meini prawf WHQS2.
- Cyflwyno polisi datgarboneiddio gyda dadansoddiad o opsiynau i ddilyn yn ddiweddarach mewn ymateb i strategaeth dim carbon a chomisiynu arolwg Savills i bennu adnoddau wyneb yn wyneb â meini prawf newydd yng nghanllawiau WHQS2.

**Lleihau carbon trwy ein ffyrdd o weithio...**

**Ein targedau ar gyfer eleni yw:**

- Gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Garbon i ailystyried Arolwg Arbedion Ynni 2011 ac allyriadau $CO_2$ y stoc i fesur cynnydd a chroesgyfeirio â'r Canllawiau WHQS2 newydd
- Rhoi mesurau ar waith i werthuso cynaliadwyedd y broses gaffael yn cynnwys cadwyni cyflenwi

**Taclo'r agenda newid yn yr hinsawdd...**


**Ein targedau ar gyfer eleni yw:**

- Sicrhau cytundebau cychwynnol gyda phartneriaid perthnasol ar gyfer prosiect fferm wynt
- Arfer diwydrwydd dyledus, dadansoddi opsiynau ac achosion busnes ar gyfer prosiectau fydd yn cyfrannu at leihau ein hôl-troed carbon drwy fferm wynt

**Darparu atebion arloesol ar gyfer tai...**

**Ein targedau ar gyfer eleni yw:**

- Dadansoddi opsiynau a diwydrwydd dyladwy o ran y prosiect Dulliau Adeiladu Modern os daw prosiectau/methodolegau deniadol i'r golwg.
- Ymateb i'r agenda newid hinsawdd drwy ymchwilio i ddatblygiadau newydd sy'n gysylltiedig â lleihau carbon yn y maes adeiladu





# Economaidd...

Byddwn yn parhau i fod yn ddichonol yn ariannol, adeiladu ar ein cydnerthedd a buddsoddi yn ein strategaethau ar gyfer twf ac arallgyfeirio i gael incwm ychwanegol ar gyfer ail-fuddsoddiad mewn gweithgareddau craidd.

**Chwilio am gyfleoedd partneriaeth â sefydliadau eraill i greu buddsoddiad sy'n cryfhau ein cymunedau...**

**Ein targedau ar gyfer eleni yw:**

- Canfod cyfleoedd i ddatblygu partneriaethau, yn cynnwys y tu allan i Sir Fynwy , sef Torfaen/ Casnewydd a Chaerdydd, yn benodol
- Cyflenwi Strategaeth Ymgysylltiad Rhanddeiliaid CTSF, gan nodi
- partneriaethau strategol wedi eu seilio ar ymddiriedaeth a gwerthoedd a
- rennir

**Amrywio a thyfu'r busnes...**

**Ein targedau ar gyfer eleni yw:**

- Nodi cyfleoedd gwerthu'r farchnad i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Busnes Capsel

**Cynnal dichonoldeb ariannol a hyder arianwyr a phartneriaid...**

**Ein targedau ar gyfer eleni yw:**

- Cadw ôl-ddyledion rhent ar y cyfan ar 3.0%
- Cadw ôl-ddyledion Credyd Cynhwysol ar 6%
- gwargedion gweithredu yn unol â strategaeth y Bwrdd
- Cydymffurfio â chyfamodau cyllido a Rheolau Aur CTSF
- Sicrhau bod strwythurau rheoli cadarn ar waith i sicrhau ein bod yn diwallu Safonau Rheoleiddio Llywodraeth Cymru

**Gweithio gyda'r gadwyn gyflenwi leol...**

**Ein targedau ar gyfer eleni yw:**

- Hyrwyddo a chefnogi cadwyn gyflewni lleol CTSF drwy'r polisi caffael lle bo hynny'n briodol
- Sicrhau y cyflawnir ymrwymiadau gwerth cymdeithasol yn yr holl gontractau gwaith mawr (Rheoli a Datblygu Asedau)



# Pobl...

Pobl yw ein busnes ac rydym am fod yn gyflogwr a landlord eu dewis, ble gall pobl wireddu eu huchelgais mewn amgylchedd cynhwysol a hygyrch.

**Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant...**

**Ein targedau ar gyfer eleni yw:**

- Adolygu ein cynnig i fodloni gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg, unwaith y bydd y Comisiynydd wedi amlinellu'r meini prawf angenrheidiol. Yn y cyfamser, parhau â'r Hyfforddiant Iaith Gymraeg yn y gwaith
- Adolygu Rhaglen Gwaith a Sgiliau a chanfod a yw'n flaenoriaeth newydd i symud adnoddau tuag at Gynhwysiant Ariannol, am mai dyma ble mae'r diffyg yn y farchnad erbyn hyn

**Lles a Datblygiad...**

**Ein targedau ar gyfer eleni yw:**

- Arfogi cydweithwyr â'r wybodaeth, y sgiliau a'r gallu i ymgorffori newid yn unol â strategaeth ddigidol CTSF
- i'r eithaf ar gyfleoedd i brentisiaid (o leiaf 5% o'r gweithlu)
- tri arweinydd y dyfodol
- Gweithredu blwyddyn 2 o strategaeth ddigidol CTSF

**Ymgysylltiad a Diwylliant...**

**Ein targedau ar gyfer eleni yw:**

- Comisiynu arolwg staff newydd gan ddefnyddio cwmni a methodoleg newydd



# Cynlluniau'r Dyfodol

Y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol nesaf, rydym wedi dewis rhai uchelgeisiau tymor hir...

## Landlord

**2024-2028 byddwn hefyd yn ceisio:**

- Cyflwyno 100 o dai ychwanegol y flwyddyn ar gyfartaledd
- Sicrhau digon o dir, yn cynnwys cytundebau opsiynau, lle bo hynny'n briodol, er mwyn gallu cyflawni'r rhaglen ddatblygu.
- Cefnogi gofynion canllawiau cynllunio atodol yr ALl ar gyfer seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth mewn datblygiadau newydd ac ehangu ar hyn lle mae'r asesiadau hyfywedd yn ei gefnogi.
- Gwella cynnig digidol CTSF i denantiaid trwy ddefnyddio Apiau a thechnoleg arloesol arall yn ehangach
- Adolygu, ac os yw'n briodol, diwygio ein safon 'symud i mewn' mewn eiddo
- Sicrhau bod 90%+ o denantiaid ar y cyfan yn parhau i fod yn fodlon, a chadw o fewn y chwartel uchaf yng Nghymru
- Cynyddu ein stoc tai rhent i 4250 erbyn 2028

## Amgylchedd

**2024-2028 byddwn hefyd yn ceisio:**

- Weithio mewn partneriaeth gyda darparwyr eraill i hwyluso dulliau adeiladu modern yn ein datblygiadau
- Bwrw ymlaen â phrosiectau i leihau ein hôl troed carbon yn unol â dadansoddiad o'r opsiynau ac amserlenni y cytunir arnynt
- Trwy atebion arloesol i ddatblygu, sicrhau bod ein stoc yn hollol garbon niwtral erbyn 2027

## Economaidd

**2024-2028 we will also aim to:**

- Cynnal ôl-ddyledion Credyd Cynhwysol ar 6.5% o 2024
- Cynnal y Safon Sicrwydd Rheoleiddio
- Nodi strwythurau cyfreithiol arloesol i greu cyfleoedd buddsoddi pellach

## Pobl

**2024-2028 byddwn hefyd yn ceisio:**

- Symud 30 o denantiaid i fyd gwaith bob blwyddyn. Noder y targed uchod gan y gellir ailgyfeirio adnoddau tuag at Gynhwysiant Ariannol.
- Comisiynu mwy o Arolygon Staff ac Arolwg i Denantiaid i sicrhau ein bod yn gyflogwr a landlord rhagorol.

Monmouthshire Housing
Tai Sir Fynwy

## Monmouthshire Housing Association

**0345 677 2277**

**customerservices@monmouthshirehousing.co.uk**

**www.monmouthshirehousing.co.uk**

**Monmouthshire Housing Association**
**Nant-Y-Pia House, Mamhilad Technology Park**
**Mamhilad, Monmouthshire, NP4 0JJ**

**facebook.com/Monmouthshire.Housing**

**twitter.com/mon_housing**

Sganiwch y Cod QR i fynd at wefan CTSF.

Cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Corfforaethol ar **01495 761104** neu **corporateservices@monmouthshirehousing.co.uk** os ydych chi angen y ddogfen hon yn Saesneg neu unrhyw iaith arall, PDF, print bras, Braille neu mewn fformat clywedol.